








# UNDEB ABERYSTWYTH CANLLAW'R ETHOLIADAU

Gwanwyn 2026, Cyngor i Staff y Brifysgol

Ar ben y sefyllfa sydd ohoni, rydym yn deall bod darlithwyr a staff y gwasanaethau proffesiynol yn brysur iawn. Gallai gorfod ystyried sut mae etholiad undeb myfyrwyr yn cael ei gynnal ddod ar draws yn ormod.

Fodd bynnag, mae'r canllaw bach hwn yn trin â rhai o'r pryderon a chwestiynau mwyaf cyffredin a godir gan staff yn ogystal â chrynodeb o'n etholiadau a'r prosesau cysylltiedig.

## PAM FOD UNDEB Y MYFYRWYR YN CYNNAL ETHOLIADAU?

Mae ein hetholiadau yn broses hollbwysig sy'n cynnig y cyfle i fyfyrwyr benderfynu pwy sy'n eu cynrychioli.

Fel sefydliad elusennol, mae'r etholiadau yn gyfle i ni hyrwyddo ein gwaith presennol i'r corff myfyrwyr ehangach, tra'n gadael i'n myfyrwyr lywio trywydd ei waith. O dan y Ddeddf Addysg 1994, mae rhaid i rolau penodol gael eu hethol trwy etholiad ar draws y campws.

Mae Etholiadau'r Gwanwyn yn ethol Swyddogion Sabothol bob blwyddyn i gynrychioli anghenion a barn fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Bydd yr unigolion hyn yn mynychu pwyllgorau allweddol, cwrdd â staff ar draws y sefydliad, ac yn cael eu holi'n aml ynglŷn â barn a meddyliau'r corff myfyrwyr. Dim ond un enghraifft o pam ei bod hi'n hollbwysig bod myfyrwyr yn pleidleisio.

# PRYD Y CYNHELIR ETHOLIADAU'R GWANWYN?

Daw y cyfnod sefyll i ben ar 23ain Chwefror, ac wedyn y cynhelir y cyfnod pleidleisio 16-20 Mawrth.

Os bydd rolau gwag, rydym hefyd yn cynnal is-etholiadau ddiwedd Hydref/Tachwedd.

# PA ROLAU FYDD YN YR ETHOLIADAU?

I'w hethol mae 4 rôl Swyddog Llawn Amser a 15 rôl Swyddog Gwirfoddol.

Ar wahân i'r Swyddogion Gwirfoddol, sy'n cymryd eu rolau yn ystod eu hastudiaethau, mae'r 4 Swyddog Llawn Amser yn rôl etholedig a chyflogedig dros un flwyddyn heb astudio.

Mewn cyfanswm, mae gennym 14 rôl Swyddog Gwirfoddol y mae'r rhan fwyaf yn cynrychioli grwpiau myfyrwyr penodol, ar sail ryddid, diddordeb neu gyfadran.

Y rolau Llawn Amser yw:

- Y Llywydd Llesiant a Rhyddid
- Y Llywydd Academaidd
- Y Llywydd Cyfleoedd
- Llywydd UMCA

Cyfadran y Gwyddorau Swyddogion:

- Swyddog yr iaith Gymraeg
- Swyddog yr amgylchedd a chynaladwyedd
- Cadeirydd yr undeb
- Swyddog y myfyrwyr lhdtc+
- Swyddog Myfyrwyr Traws ac o Rywedd Anghydffurfiol
- Swyddog y menywod
- Swyddog y myfyrwyr anabl
- Swyddog y myfyrwyr Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig
- Swyddog y myfyrwyr rhyngwladol
- Swyddog myfyrwyr annibynnol
- Swyddog y myfyrwyr hŷn
- Swyddog y myfyrwyr ôl-raddedig
- Cyfadran y Dyniaethau Swyddogion
- Cyfadran y Gwyddorau Swyddogion

Ceir mwy o wybodaeth am bob rôl ar ein gwefan.

## PWY ALL SEFYLL MEWN ETHOLIAD?

Gall pob myfyriwr cofrestredig sefyll yn yr etholiadau gan gynnwys Myfyrwyr Rhyngwladol. Ni all Ymchwilwyr Ôl-raddedig sydd mewn cyfnod 'ysgrifennu' neu ailgyflwyno sefyll gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn fyfyrwyr cofrestredig gan y Brifysgol.



# OES RHEOLAU ARBENNIG MAE RHAID I FI EU HYSTYRIED FEL AELOD STAFF?

Mae yna nifer o reolau sy’n rheoli’r etholiadau gan ddod i ddwy egwyddor sylfaenol sy’n hanfodol i ymgeiswyr...

Yn gyntaf, cyfle cyfartal, eu bod nhw ond yn ymgyrchu ar lefel sy’n gyfartal i bawb;

Yn ail, eu bod yn parchu pob myfyriwr, ymgeisydd ac aelod staff.

Rydym bob tro yn awgrymu i chi gadw’r egwyddorion hon mewn cof pan yn trin cwestiwn ynghylch yr etholiadau. Gellir darllen rheolau’r etholiadau mewn manylder ar ein gwefan.

# ALLAF ANNOG MYFYRWYR I SEFYLL YN YR ETHOLIADAU?

Gallwch. Efallai mai annog myfyriwr fydd yr hwb i’w hyder i sefyll yn yr etholiadau. I hwyluso hyn, mae gennym y broses “Enwebu Myfyriwr” i fyfyrwyr a staff enwebu myfyrwyr (yn ddienw os oes eisiau) i sefyll am rôl. Gan amlaf, rydym yn gweld y system hon yn rhoi’r hyder sydd angen i fyfyriwr fynd ati a sefyll!

# ALLAF HELPU YMGYRCH MYFYRIWR YN YR ETHOLIADAU?

Ni chaniateir i staff y Brifysgol na staff yr Undeb gymryd rhan mewn unrhyw ymgyrch a'i weithgareddau gan gynnwys helpu myfyrwyr ddrafftio eu proffil ymgeisydd. Caniateir i Staff Myfyrwyr wneud hyn, ond yn eu hamser eu hun ac nid tra eu bod mewn oriau gwaith taledig na thrwy gyfleoedd sydd ond ar gael iddynt oherwydd eu rôl.

# ALLAF ANNOG I FYFYRIWR BLEIDLEISO?

Gallwch, ond eich bod yn annog iddynt fwrw pleidlais yn gyffredinol. Ni chaniateir i Staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr annog myfyrwyr i bleidleisio dros ymgeisydd penodol. Os bydd yn digwydd, gall hyn achosi i'r ymgeisydd dan sylw gael ei wahardd.

# ALLAF GEFNOGI YMGEISWYR?

Ni chaniateir i Staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd ymgyrchu gan gynnwys ysgrifennu maniffesto. Caniateir i Staff Myfyrwyr wneud hyn, ond yn eu hamser eu hun ac nid tra eu bod mewn oriau gwaith taledig na thrwy gyfleoedd sydd ond ar gael iddynt oherwydd eu rôl.

# SUT MAE MYFYRWYR YN BWRW PLEIDLAIS YN YR ETHOLIADAU?

'Pleidlais Amgen' yw ein system etholiadol i benderfynu ein hetholiadau. Mae hyn yn galluogi i fyfyrwyr nodi eu dewis yn hytrach nag un bleidlais yn unig. Cynhelir pleidleisio trwy wefan yr UM.

Os ydych chi'n ymwybodol o fyfyrwyr sydd am bleidleisio ond yn cael problemau pleidleisio, cyfeiriwch nhw atom trwy undeb.etholiadau@aber.ac.uk

# BLE ALL YMGEISWYR YMGYRCH?

Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau cyfreithiol pan yn ymgyrchu.

Yn fras, mae ganddoch chi hawl i ymgyrchu yn y rhan fwyaf o lefydd yn adeilad yr UM, heb law am y Siop a'r Swyddfeydd. Ceir gosod posteri unrhyw le yn yr adeilad heblaw am ddrysau swyddfeydd, ffenestri, a waliau'r Cwtsh (y bar). Ni ddylai ymgyrchwyr ddefnyddio selotep i osod eu posteri.

Mewn adeiladau ar wahân i Undeb y Myfyrwyr, gall myfyrwyr ddefnyddio hysbysfyrddau adrannau i hyrwyddo eu hymgyrch cyhyd â'u bod wedi cael caniatâd gan yr awdurdod perthnasol.

Gellir rhoi baneri i fyny mewn llefydd cyhoeddus oni bai nad ydynt yn risg diogelwch neu'n rhwystro pobl rhag mynd a dod. Os byddwch chi'n gweld unrhyw ddeunydd hyrwyddo y dylid cael gwared ohonynt am ryw reswm, rhowch wybod i undeb.etholiadau@aber.ac.uk neu Dderbynfa'r UM. Byddwn wedyn yn gwneud ymdrech i'w dynnu.

# PA GEFNOGAETH FYDD YMGEISWYR YN EI CHAEL ODDI UNDEB Y MYFYRWYR?

Bydd ymgeiswyr yn cael hyfforddiant ar yr etholiadau a'r rheolau a'r prosesau cysylltiedig. Rhoddir hefyd cyllid cyfyngedig i dalu am gostau ymgyrchu i bob ymgeisydd. Mae Tîm yr Etholiadau ar gael trwy gydol y cyfnodau sefyll ac ymgyrchu i ateb unrhyw gwestiynau fydd gan fyfyrwyr neu ymgeiswyr.

Gall pob ymgeisydd hefyd fynd at ein Ymgynghorydd Myfyrwyr hyfforddedig sydd ar gael trwy union.advice@aber.ac.uk

# PRYD BYDD YMGEISWYR YN CYMRYD EU ROLAU?

Bydd pob ymgeisydd yn cychwyn eu blwyddyn yn swyddogol ar y 1af o fis Gorffennaf, fodd bynnag, bydd hyfforddiant o flaen llaw.

# BETH GALLAF EI WNEUD OS OES GENNYF GWESTIYNAU?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â Thîm yr Etholiadau trwy undeb.etholiadau@aber.ac.uk neu ellir cysylltu â'r Dirprwy Swyddog Dychwelyd yn uniongyrchol trwy jaw151@aber.ac.uk.